OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif (Cy. )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Cynghorau Cymuned Cymwys (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol) (Cymwysterau Clercod) (Cymru) 2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 30 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn nodi'r amodau cymhwystra y mae rhaid i gyngor cymuned eu bodloni cyn y caiff benderfynu dod yn gyngor cymuned cymwys.

Mae dod yn gyngor cymuned cymwys yn galluogi cyngor cymuned i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol at ddiben Pennod 1 o Ran 2 o Ddeddf 2021.

Mae'r ail amod cymhwystra wedi ei nodi yn adran 30(3) o Ddeddf 2021 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i glerc cyngor cymuned ddal cymhwyster neu ddisgrifiad o gymhwyster o fath a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r cymwysterau y mae rhaid i'r clerc eu dal er mwyn i'r cyngor cymuned fodloni'r ail amod cymhwystra. Rhaid i'r clerc ddal o leiaf un o'r pedwar cymhwyster a nodir yn rheoliad 2.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif (Cy. )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Cynghorau Cymuned Cymwys (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol) (Cymwysterau Clercod) (Cymru) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *** |
| *Yn dod i rym* | *5 Mai 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 30(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(**1**).

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw’r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynghorau Cymuned Cymwys (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol) (Cymwysterau Clercod) (Cymru) 2021.

(2) Daw’r Rheoliadau hyn i rym ar 5 Mai 2022.

### Cymwysterau penodedig clercod

**2.** At ddiben adran 30(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, rhaid i glerc cyngor cymuned ddal o leiaf un o’r cymwysterau a ganlyn er mwyn i’r cyngor cymuned fodloni’r ail amod cymhwystra—

(a) Tystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol;

(b) Tystysgrif Addysg Uwch mewn Llywodraethu Cymunedol;

(c) Tystysgrif Addysg Uwch mewn Ymgysylltu a Llywodraethu Cymunedol;

(**1**) 2021 dsc 1.

(d) Tystysgrif Addysg Uwch mewn Polisi Lleol.

*Enw*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad